OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### Paratoi achos cyn y gwrandawiad

### *Gwrandawiadau a phenderfyniadau*

**Gorchmynion sy'n cyfyngu ar adrodd**

**44.**—(1) Pan fo gwneud hynny'n ymddangos yn briodol, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wneud gorchymyn sy'n cyfyngu ar gyhoeddi, neu'n gwahardd cyhoeddi, unrhyw ddeunydd sy'n debygol o arwain aelodau o'r cyhoedd at adnabod yr apelydd, yr hawlydd, plentyn neu berson arall, os tybir na ddylent gael eu hadnabod.

(2) Yn y rheoliad hwn mae "cyhoeddi" ("*publishing*"), heb ragfarnu cyffredinolrwydd yr ymadrodd hwnnw, yn cynnwys—

(a) cyhoeddi unrhyw ddeunydd mewn gwasanaeth rhaglenni, fel y diffinnir "programme service" gan adran 201 o Ddeddf Darlledu 1990(**1**); a

(b) peri cyhoeddi unrhyw ddeunydd.

(3) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wneud gorchymyn o dan y rheoliad hwn mewn perthynas â chyfnod cyfyngedig, ac amrywio neu ddirymu gorchymyn a wneir o dan y rheoliad hwn.

(**1**) 1990 p.42.